Eitem ar yr Agenda: 9

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2007/2008

Tachwedd 2008

**Awduron: Rob Powell a Gilbert Lloyd** **Cyf 875A2008**

# Llythyr Blynyddol

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Contents


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 5 |
| Nid argymhellwn unrhyw arolygiadau statudol eleni | 6 |
| **Llythyr Blynyddol** | |
| Adroddiad yr Archwilydd Penodedig | 7 |
| Mae'r Datganiadau Ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn deg ac ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol | 7 |
| Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu | 9 |
| Roedd trefniadau cynllunio gwelliant yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion statudol ond nodwyd meysydd lle mae angen gwaith pellach gennym | 10 |
| Cwblhawyd ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn briodol | 11 |
| Roedd gan yr Awdurdod drefniadau boddhaol yn 2007/2008 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 11 |
| Ceir cyfleoedd i'r Awdurdod sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gwelliant pellach o ran darparu gwasanaethau | 13 |
| Adroddiad y Rheolwr Cydberthnasau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol | 16 |
| Dilyswyd blaenoriaethau gwella'r Awdurdod gan yr Asesiad Risg ar y Cyd blynyddol a chymerwyd rhai camau mewn ymateb i argymhellion blaenorol, er bod yr Awdurdod yn parhau i wynebu heriau o ran gweithredu cynigion allweddol | 16 |
| Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â mentrau Swyddfa Archwilio Cymru i hybu gwelliant | 19 |

**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| Adroddiad yr Archwilydd ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2007/2008 | 21 |
| Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2007/2008 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 22 |
| Archwiliad o Gynllun Gwella 2008/2009 | 23 |
| Ffioedd archwilio ac arolygu | 25 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Blynyddol hwn yn nodi'r negeseuon allweddol sy'n codi o waith a wnaed dros y 12 mis diwethaf hyd at yr adeg pan y'i ysgrifennwyd gan:
   - y Partner Ymgysylltu ar ran yr Archwilydd Penodedig o dan y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod); a'r
   - Rheolwr Cydberthnasau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol o dan bwerau astudiaethau ac arolygiadau'r Archwilydd Cyffredinol.
2. Mae'r Llythyr Blynyddol yn cynnwys crynodeb o waith archwilio ac arolygu ac yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn camau gwella. Mae'n defnyddio adroddiadau cyhoeddedig arolygiaethau eraill i roi crynodeb blynyddol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Nodwyd y gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yng Nghynllun Rheoliadol 2007/2008 a gellir cael rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar y gwaith a wnaed yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn.
3. Cyflwynir y Llythyr Blynyddol i'r Panel Gweithredol ar 15 Rhagfyr 2008.
4. Mae Arolygydd Penodedig yr Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu. Dyma ein casgliad:
   - Roedd datganiadau ariannol yr Awdurdod yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn deg ac fe'u paratowyd yn briodol. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol gennym.
   - Roedd trefniadau cynllunio gwella'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion statudol ond nodwyd meysydd lle mae angen gwaith pellach gennym.
   - Roedd gan yr Awdurdod drefniadau boddhaol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau
   - Ceir cyfleoedd i'r Awdurdod sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gwelliant pellach o ran darparu gwasanaethau.
5. Casgliad y Rheolwr Cydberthnasau oedd:
   - Dilyswyd blaenoriaethau gwella'r Awdurdod gan yr Asesiad Risg ar y Cyd blynyddol a chymerwyd rhai camau mewn ymateb i argymhellion blaenorol, er bod yr Awdurdod yn parhau i wynebu heriau o ran gweithredu cynigion allweddol.
   - Gellir gwneud gwelliannau o ran craffu ac ymgysylltu ag aelodau, sy'n waith a ddatblygir drwy adolygiad parhaus a'r broses o fabwysiadu Siarter Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
   - Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â mentrau Swyddfa Archwilio Cymru i hybu gwelliant.

## Nid argymhellwn unrhyw arolygiadau statudol eleni

6. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig argymell, ar sail y gwaith archwilio a gyflawnwyd, a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Arolygiad Gwerth Gorau o'r Awdurdod neu a ddylai Gweinidogion Cymru argymell camau gweithredu, y cyfeirir atynt fel 'cyfarwyddyd' o dan adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (Deddf 1999). Ar sail y gwaith archwilio a gyflawnwyd:
   - nid yw'r Archwilydd Penodedig yn argymell y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Arolygiad Gwerth Gorau o'r Awdurdod o dan adran 10A o Ddeddf 1999; ac
   - nid yw'r Archwilydd Penodedig yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o Ddeddf 1999.

# Adroddiad yr Archwilydd Penodedig

7. Y Datganiadau Ariannol yw'r ffordd hanfodol y mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am ei ddull o stiwardio'r adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Noda'r Cod mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
   - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
   - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; a
   - pharatoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol.
8. Fel archwilwyr mae'n ofynnol i ni archwilio'r Datganiadau Ariannol a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys barn yn nodi a yw'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun teg o sefyllfa'r Awdurdod. Mae adroddiad yr archwilydd hefyd yn rhoi barn ar b'un a yw'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau neu reoliadau perthnasol a safonau cyfrifyddu cymwys.

## Mae'r Datganiadau Ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn deg ac ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaeth fewnol

### Mae Datganiadau Ariannol 2007/2008 yr Awdurdod yn rhoi darlun teg o'i sefyllfa ariannol ac fe'u paratowyd yn briodol

9. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiadau i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ganfyddiadau ein harchwiliad o gyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilydd Penodedig *Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol – cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu* i'r Panel Gweithredol ar 22 Medi 2008. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: ISA 260 cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod**

| Gofyniad adrodd | Ymateb yr Archwilydd |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd. | Ni wnaed unrhyw addasiadau i adroddiad yr archwilydd. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Nodwyd nifer o wallau nad ydynt yn fân wallau yn ystod yr archwiliad. Gwnaethpwyd diwygiadau priodol gan reolwyr.<br>Amlygwyd darpariaethau o £800,000 fel camddatganiadau nas cywirwyd yn adroddiad ISA 260 a chadarnhawyd i aelodau'r Panel Gweithredol ar 22 Medi 2008 fod gwaith archwilio yn mynd rhagddo o hyd o ran y symiau hyn.<br>Cytunwyd wedi hynny bod £608,000 yn ymwneud â darpariaethau a oedd yn cydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol 12 a Datganiad CIPFA o'r Arfer a Argymhellir ac felly y gallai aros o fewn y darpariaethau yn y cyfrifon.<br>Addaswyd y swm o £192,000 a oedd yn weddill yn y cyfrifon drwy ei ailddosbarthu a'i drosglwyddo i'r rhwymedigaethau presennol, gan eu bod yn symiau sy'n daladwy i'r awdurdodau cyfansoddol ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Gwnaethpwyd addasiad tebyg i gywiro cyfrifon y flwyddyn flaenorol, gyda £318,000 wedi'i addasu o ddarpariaethau i rwymedigaethau cyfredol. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Safbwyntiau ynglŷn ag agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Ni chododd unrhyw faterion |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. | Ni chododd unrhyw faterion. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Ni chododd unrhyw faterion. |

10. Ar 14 Tachwedd 2008 cyflwynwyd adroddiad archwilydd diamod ar y Datganiadau Ariannol. Roedd datganiadau ariannol yr Awdurdod wedi'u cynhyrchu i safon uchel ac wedi'u paratoi, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â dogfen cydbwyllgor CIPFA/LASAAC 'Cod Ymarfer Archwilio ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2007: Datganiad o Arfer a Argymhellir'. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf sawl newid i'r gofynion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2007, a oedd yn cynnwys ymgorffori Safonau Adrodd Ariannol mewn perthynas ag offerynnau ariannol, newidiadau i gyfrifyddu cyfalaf a'r angen i gynhyrchu cyfrifon Pensiwn newydd y Gwasanaeth Tân.

### Ni nododd archwiliad o systemau ariannol pwysig yr Awdurdod unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaeth fewnol, ond ceir meysydd lle mae angen gwelliant parhaus

11. Mae ein hadolygiad o systemau ariannol yr Awdurdod wedi cynnwys eu dogfennu a phrofi'r rheolaethau mewnol lle y bo angen. Daethom i'r casgliad y gellir dibynnu ar systemau ariannol pwysig yr Awdurdod i gynhyrchu canlyniadau sy'n gywir mewn ffyrdd perthnasol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod lle i wella'r rheolaethau mewn rhai meysydd a rhoddwyd gwybod i'r rheolwyr amdanynt.

12. I grynhoi, y gwelliannau sydd eu hangen yw:
    - dylid adolygu ac awdurdodi pob dyddlyfr cyn eu postio;
    - dylid sefydlu polisi darpariaeth dyled ddrwg;
    - dylid sicrhau y caiff darpariaethau eu cyfrifo'n gyson o flwyddyn i flwyddyn a'u bod ond yn cael eu cynnwys os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf yn Safon Adrodd Ariannol 12;
    - dylid adolygu'r gofrestr asedau sefydlog a chywiro'r holl wallau ar daenlenni; ac
    - ar ddiwedd y flwyddyn dylid cyflawni adolygiad llawn o anfonebau a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau bod unrhyw nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd cyn diwedd y flwyddyn wedi'u nodi'n gywir.

## Ardystiwn fod yr archwiliad wedi'i gwblhau yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu

### Nid oedd unrhyw gwestiynau ffurfiol na gwrthwynebiadau i'r datganiadau ariannol

13. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mae'r Awdurdod wedi hysbysebu hawliau etholwyr lleol i:
    - arolygu'r Ffurflen Flynyddol a gwneud copi ohoni;
    - holi'r archwilydd ynglŷn â'r cyfrifon; a
    - bod yn bresennol gerbron yr archwilydd a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt.

14. Nid arferwyd yr hawliau hyn.

## Roedd trefniadau cynllunio gwelliant yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion statudol ond nodwyd meysydd lle mae angen gwaith pellach gennym

### Cyflawnwyd Cynllun Gwella'r Awdurdod yn briodol ac mae'n cyflwyno darlun cytbwys o berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf

15. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a chanllawiau dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr WFRS(07)15, rhaid cyhoeddi Cynllun Gwella erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i ni archwilio'r Cynllun Gwella yn unol â gofynion a chanllawiau statudol a chyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau, yn cynnwys adroddiad ar ôl cwblhau'r Asesiad Risg ar y Cyd, ein harchwiliad o Ddangosyddion Perfformiad yr Awdurdod a'i drefniadau mesur perfformiad.
16. Cafodd y Cynllun a'r Crynodeb Cyhoeddus eu llunio a'u cyhoeddi yn brydlon ac roeddent yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yng Nghylchlythyr WFRS(07)15:
   - mae'r Cynllun manwl a'r Crynodeb yn ddogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda sy'n nodi cydbwysedd o berfformiad da a meysydd ar gyfer gwella;
   - mae amcanion corfforaethol yr Awdurdod a'r camau gweithredu allweddol ar gyfer eu cyflawni wedi'u nodi'n glir; ac
   - mae'r Cynllun Gwella 'Cam 1' a luniwyd yn 2008 yn cydymffurfio â'r canllawiau yng Nghylchlythyr WFRS(07)15, er y dylai'r Awdurdod ystyried y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon ar ei wefan yn y dyfodol i sichrau bod y wybodaeth yn glir ac ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr.
17. Nodir cyfrifoldebau manwl, cwmpas ein gwaith a'r dystysgrif archwilio yn Atodiad 3.

### Amlygodd ein harchwiliad o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol fod gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar waith ar gyfer casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad mewn rhai meysydd ond mae angen gwelliannau o ran casglu gwybodaeth mewn perthynas â rhai Dangosyddion Strategol Cenedlaethol penodol

18. Mae Cynllun Gwella 2008 yn adrodd ar berfformiad yn ystod 2007/2008 yn erbyn tri dangosydd perfformiad Strategol Cenedlaethol a 10 Dangosydd Craidd.
19. Roedd y chwe Dangosydd Strategol Cenedlaethol sy'n destun archwiliad statudol yn newydd ar gyfer 2007/2008, fel y nodwyd yng Ngorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 (Offeryn Statudol Cymru 2008 Rhif (W) a wnaed ar 18 Mawrth 2008. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod i gasglu'r holl ddangosyddion hyn ac adrodd arnynt yn ei Gynllun Gwella.
20. O'r chwe dangosydd, nid yw'r Awdurdod wedi casglu data nac adrodd data o ran tri ar gyfer 2007/2008 oherwydd diffyg system i logio'n awtomatig y nifer uchel o asesiadau risg diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd ac i gofnodi eu lleoliadau yn gywir.

21. Mae angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â bylchau yn ei drefniadau ar gyfer casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol ac mae'n ceisio cyfarwyddwyd pellach ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gasglu rhai o'r dangosyddion hyn a chyflwyno adroddiadau arnynt.

22. Mae'r Awdurdod ond wedi pennu targedau ar gyfer 2008/2009 o ran dangosyddion y mae o'r farn eu bod yn ymwneud â meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth. Er y gall hyn ddarparu ffocws ar gyfer y meysydd o flaenoriaeth, dylai'r Awdurdod ystyried pennu targedau ar gyfer o leiaf pob Dangosydd Strategol Cenedlaethol i alluogi cymharu data rhwng Awdurdodau Tân eraill Cymru.

## Cwblhawyd ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn briodol

23. Yn unol â Deddf Llywodraeth ac Adnoddau a Chyfrifon 2000 a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, caiff Pecyn wedi'i Gyfuno ei baratoi'n flynyddol gan yr Awdurdod i gynorthwyo Trysorlys EM i gynhyrchu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

24. Ar ran y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel archwilydd Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru archwilio'r Pecyn wedi'i Gyfuno yn unol â gofynion statudol a chyfarwyddiadau archwilio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

25. O'n harchwiliad o ffurflen yr Awdurdod ar gyfer eleni, canfuwyd:

- bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff Pecyn wedi'i Gyfuno Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ei gynhyrchu'n foddhaol;
- bod y Pecyn wedi'i Gyfuno yn gyson â'r cyfrifon statudol a archwiliwyd;
- bod ffrydiau trafodion perthnasol a balansau â chyrff eraill Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan wedi'u nodi'n llwyr ac yn gywir; a
- bod ffrydiau trafodion a balansau o fewn Llywodraeth y Cynulliad dros £5 miliwn wedi'u cytuno'n ffurfiol fel sy'n ofynnol.

## Roedd gan yr Awdurdod drefniadau boddhaol yn 2007/2008 i'w helpu i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

26. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr fodloni eu hunain bod y corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Adlewyrchir y gofyniad hwn yn y Cod.

27. Daethom i'n casgliad fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o'r cyfrifon. Archwiliwyd tystiolaeth o fodolaeth trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol yr Awdurdod. Yn y gwaith hwn nid ydym yn rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny yn ystod y flwyddyn nac yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â hwy.

28. Mae gwaith gwerth am arian ar wahân yn ystyried lle y gellid gwella trefniadau neu'r broses o'u gweithredu. Mae unrhyw waith o'r fath yn llywio ein casgliad ar fodolaeth trefniadau ond nid yw'n hanfodol iddo.

29. Ceir adroddiad yr archwilydd ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2007/2008 yn Atodiad 1. Nodir y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu hyn yn Atodiad 2.

30. Daethom i'r casgliad, ar gyfer 2007/2008, fod gan yr Awdurdod drefniadau boddhaol ar waith i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Ceir crynodeb o ganlyniadau manwl ein hasesiad yn Arddangosyn 2.

**Arddangosyn 2: Asesiad o drefniadau priodol**

| Agwedd | Trefniant | Ateb |
|---|---|---|
| **Amcanion strategol a gweithredol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? | Ydy |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr, ac ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ehangach? | Ydy |
| **Rheolaethau mewnol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig? | Ydy |
| **Rheoli risg** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau a chyfleoedd gweithredol ac ariannol, yn cynnwys y rhai sy'n deillio o gyfranogiad mewn partneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractio? | Ydy |
| **Rheoli Adnoddau** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, yn cynnwys trefniadau i ddiogelu ei sefyllfa ariannol? | Ydy |
| **Adolygu Perfformiad** | A oes gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i fonitro ac adolygu perfformiad, yn cynnwys trefniadau i sicrhau ansawdd data? | Oes |
| **Safonau Ymddygiad** | A yw'r Awdurdod wedi sicrhau bod ei faterion yn cael eu rheoli yn unol â safonau ymddygiad priodol ac i atal a chanfod twyll a llygredd? | Ydy |
| **Casgliad Cyffredinol** | A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau 'darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd' yn ei ddefnydd o adnoddau? | Ydy |

## Ceir cyfleoedd i'r Awdurdod sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gwelliant pellach o ran darparu gwasanaethau

### Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw ac mae ganddo drefniadau priodol ar waith i reoli ei gyllid. Fodd bynnag, mae'n wynebu pwysau ariannol cynyddol mewn sawl maes

31. Rydym yn gyfrifol am asesu a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i fonitro, rheoli a chyflwyno adroddiad ar ei sefyllfa ariannol. Roedd ein harchwiliad yn seiliedig ar adolygiad o:

- bennu'r gyllideb refeniw a'r rhaglen gyfalaf;
- monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol; a
- chyflawni targedau ariannol.

32. Rydym wedi archwilio adroddiadau a gweithdrefnau o ran y gyllideb ac rydym yn fodlon bod:

- trefniadau addas ar waith;
- mae cyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cwmpasu pob maes perthnasol o incwm a gwariant ac maent yn seiliedig ar dybiaethau realistig; ac
- mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol a ddylai sicrhau bod unrhyw gamddatganiadau ac amrywiannau perthnasol posibl yn cael eu nodi.

33. Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw, a pharhaodd hyn yn 2007/2008 gydag ychydig bach o danwariant o £2,000. Tra y bydd angen cytuno ar brotocolau gydag awdurdodau cyfansoddol o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r polisi darpariaethau (gweler Arddangosyn 1), mae'r adroddiadau monitro cyllideb diweddaraf yn dangos bod yr Awdurdod unwaith eto o fewn cyrraedd i'w darged o gadw at ei gyllideb yn 2008/2009. Fodd bynnag, ceir nifer o bwysau ariannol y bydd angen eu hystyried a'u rheoli dros y blynyddoedd nesaf. Disgrifir y prif feysydd yn Arddangosyn 3.

**Arddangosyn 3: Pwysau ariannol**

| Pwysau ariannol | Goblygiadau |
|---|---|
| Gwerthuso swyddi a Chyflog Cyfartal | Mae'r Awdurdod yn cynnal ymarfer gwerthuso swyddi ar gyfer nifer o gyflogeion ar hyn o bryd. Ceir hefyd ansicrwydd o ran hawliau cyflog a thelerau cyfartal newydd posibl ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i asesu'r costau refeniw yn y dyfodol, na'u cynnwys mewn rhagolygon cyllideb. |
| Firelink | Darparwyd cyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu'r system cyfathrebu radio genedlaethol newydd; fodd bynnag, nid oes sicrwydd a fydd unrhyw gyllid pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer costau refeniw parhaus. |
| Rheoli Gallu Hirdymor | Efallai y trosglwyddir perchenogaeth a'r cyfrifoldebau cysylltiedig ar gyfer yr asedau hyn o Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Awdurdod yn y dyfodol. Nid oes sicrwydd o ran cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau o'r fath. |

34. Yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2007/2008, cadarnhaodd cyngor cyfreithiol a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'r fframwaith statudol y mae'r Awdurdod yn gweithredu o'i fewn yn darparu ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn a gronnwyd o arian dros ben o gyfran briodol yr awdurdodau cyfansoddol o dreuliau net yr Awdurdod Tân mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, dylai darpariaethau ar gyfer gwariant yn y dyfodol adlewyrchu'r meini prawf a geir yn FRS12. Felly rhaid codi cyllid i ymdrin â'r pwysau ariannol drwy ardollau blynyddol o awdurdodau cyfansoddol neu, mewn amgylchiadau eithafol, ardollau atodol.

35. O ystyried yr amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn cynnal ei drefniadau ar gyfer pennu cyllidebau a monitro wrth fynd ymlaen. Mae'r Awdurdod yn trafod y sefyllfa gyda'i awdurdodau cyfansoddol er mwyn cytuno ar brotocol gwaith ar gyfer defnyddio balansau credydwyr a ddelir ar ei ran yn y dyfodol.

36. Fel y nodwyd ym mharagraff 10, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Cyfrif Pensiwn newydd ar gyfer 2007/2008 i adlewyrchu'r newidiadau mewn trefniadau ariannu ar gyfer pensiynau'r gwasanaeth tân a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2007. O'r dyddiad hwn, trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod dalu cyfraniad blynyddol i'r cyfrif fel y nodir gan y rheoliadau.

37. Nododd yr Actiwari ddiffyg cyfunedig o £150.6 miliwn yng Nghronfeydd Pensiwn Diffoddwyr Tân a Llywodraeth Leol y Cyngor (gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn Safon Adrodd Ariannol (FRS) 17) o'i gymharu â £171.3 miliwn yn 2006/2007. Y prif reswm am y gostyngiad yn y diffyg oedd y newid yn y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari i asesu gwerth y rhwymedigaeth bensiwn.

### Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith

38. Mae systemau ariannol pwysig yr Awdurdod yn effeithiol.

39. Er mwyn dangos stiwardiaeth ariannol, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod ganddo weithdrefnau rheoli ariannol effeithiol yn cynnwys:

- rheolaethau ariannol mewnol effeithiol, megis rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol cadarn, rheolaeth gyllidebol gadarn a gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol;
- safonau ymddygiad ariannol cydnabyddedig;
- trefniadau priodol i sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth gyfreithiol benodol iddo wneud hynny y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â thrafodion; a
- threfniadau effeithiol i atal a chanfod twyll a llygredd.

40. Canfu ein hadolygiad o'r meysydd hyn y canlynol:

- fod y trefniadau i gynnal y systemau rheolaeth fewnol yn effeithiol;
- bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cyflawni'r safonau proffesiynol gofynnol ac wedi datblygu Strategaeth Archwilio ar gyfer 2007/2008 a 2008/2009 yn unol â gofynion safonau CIPFA;
- bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau mai dim ond lle y mae darpariaeth benodol iddo wneud hynny y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â thrafodion; a
- bod fframwaith moesegol yr Awdurdod yn gweithredu'n effeithiol ynghyd â'r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd.

41. Felly, down i'r casgliad fod trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith.

### Gwnaeth yr Awdurdod ddefnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol

42. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer cyfateb data cyfrifiadurol a gynhelir bob dwy flynedd ledled Cymru a Lloegr. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am yr ymarfer yng Nghymru drwy ei archwilwyr penodedig mewn cyrff llywodraeth leol, a'r Comisiwn Archwilio sy'n gyfrifol am yr ymarfer yn Lloegr.

43. Mae'r ymarfer wedi'i gynllunio i nodi gordaliadau i gyflenwyr a hawlwyr budd-daliadau ac i ganfod twyll a gyflawnir yn erbyn cyrff cyhoeddus. Ym mis Ionawr 2007, cafodd yr atgyfeiriadau o ymarfer 2006/2007 eu rhyddhau i gyrff sy'n cyfranogi, yn cynnwys cynghorau lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Cynhaliwyd ymchwiliadau i'r cyfatebiaethau gan arwain at nodi £4.7 miliwn o dwyll a gordalu ledled Cymru. Ym mis Mai 2008 cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol ar ganfyddiadau cyffredinol ymarfer 2006/2007.

44. Roedd nifer fach o gyfatebiaethau yn yr Awdurdod, a chymerwyd camau priodol i ymchwilio i achosion tybiedig o dwyll a chamgymeriadau ynghyd â chamau adferol.

45. Dechreuodd gwaith casglu data ar gyfer ymarfer 2008/2009 ym mis Hydref 2008, a dylai awdurdodau dderbyn cyfatebiaethau data ar ddechrau 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarfer 2008/2009 yn unol â'r pwerau a nodwyd yn Neddf Troseddu Difrifol 2007 i gynnal ymarferion paru data i gynorthwyo'r broses o atal a chanfod twyll yng Nghymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar Baru Data yn ddiweddar i helpu i sicrhau bod gwybodaeth am bobl yn cael ei diogelu a'i phrosesu'n briodol yn ystod ymarferion paru data megis y Fenter Twyll Genedlaethol.

# Adroddiad y Rheolwr Cydberthnasau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol

## Dilyswyd blaenoriaethau gwella'r Awdurdod gan yr Asesiad Risg ar y Cyd blynyddol, a chymerwyd rhai camau mewn ymateb i argymhellion blaenorol, er bod yr Awdurdod yn parhau i wynebu heriau o ran gweithredu cynigion allweddol

### Mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod mwy o ymgysylltu ag aelodau o ran cyflawni canlyniadau ei Gynllun Lleihau Risg

46. Mae'r Awdurdod wedi cwblhau Asesiad Risg ar y Cyd o'i wasanaethau a swyddogaethau corfforaethol, ac wedi cytuno arno gyda'i archwilwyr a'r Tîm Asesu Cymheiriaid. Adroddwyd canlyniadau'r asesiad risg yng Nghynllun Gwella'r Awdurdod, gan gefnogi'r broses o nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

47. Mae canlyniadau'r asesiad risg, a oedd yn cynnwys risgiau gweithredol ac anweithredol, wedi'u cynnwys yn y Cynllun Lleihau Risg cyfredol sy'n nodi blaenoriaethau'r Awdurdod yn glir o ran datblygu cadernid cymunedol. Amlygodd yr asesiad anweithredol nifer o risgiau sylweddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy. Mae trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn rhan allweddol o'r broses hon. Mae mabwysiadu a defnyddio meddalwedd Fynnon, ynghyd â chasglu ac adrodd dangosyddion perthnasol, yn elfen hanfodol o sicrhau gwelliant parhaus.


48. Yn amlwg, y flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod fydd gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog i leihau nifer y marwolaethau damweiniol oherwydd tân, sef un o'r lefelau uchaf ymhlith yr holl Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru neu Loegr[1]. Mae'r Gwasanaeth yn y broses o weithredu argymhellion adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân ar farwolaethau damweiniol oherwydd tân o dan gyfarwyddyd personol y Prif Swyddog Tân, sy'n derbyn y newyddion diweddaraf am gynnydd yn rheolaidd gan ei uwch reolwyr. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyfuno ag argymhellion o'r adolygiadau cymheiriaid ac fe'i adlewyrchir yn strategol yn y Cynllun Lleihau Risg cyfredol.

49. Mae'r Asesiad Risg ar y Cyd yn amlygu'r angen i roi'r weledigaeth strategol ar waith, unwaith y cytunir ar y weledigaeth gan yr Awdurdod, er mwyn cefnogi'r amcan o leihau'r gyfradd o farwolaethau damweiniol oherwydd tân. Er bod gan yr Awdurdod blaenorol strategaeth glir i fynd i'r afael â'r gyfradd uchel o farwolaethau damweiniol oherwydd tân, a fynegwyd drwy'r Cynllun Lleihau Risg a'r Cynllun Gwella, nid oedd yr Awdurdod blaenorol yn gallu cefnogi'r broses o weithredu dau o'i bedwar argymhelliad i ganiatáu i'r Gwasanaeth fuddsoddi mewn gwell gweithgarwch atal tân. Rhaid i'r Awdurdod newydd ddatblygu dull mwy effeithiol o gefnogi'r broses o weithredu ei Gynlluniau Lleihau Risg a ddatganwyd.

50. Ceir risgiau uchel neu ganolig hefyd o ran rheoli perfformiad, agweddau cyfrifiadurol ar y Gwasanaeth Tân ac Achub, cydraddoldebau a chynaliadwyedd, er i'r Awdurdod gymryd camau gweithredu ym mhob un o'r tri maes i fynd i'r afael â'r risgiau. Mae Arddangosyn 4 yn ddyfyniad o'n hadroddiad ar yr Asesiad Risg ar y Cyd sy'n nodi sut y mae'r risgiau anweithredol allweddol amrywiol yn yr Asesiad Risg ar y Cyd yn gysylltiedig â'i gilydd.

[1] Fire Statistic Monitors (2006 – Dros Dro), yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

**Arddangosyn 4: Ceir cysylltiadau rhwng rhai o'r risgiau anweithredol allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

### Ymatebodd yr Awdurdod yn gadarnhaol i argymhelliad gwaith arolygu blaenorol

51. Rydym wedi cynnal gwaith dilynol ar weithredu'r argymhellion sy'n codi o'n gwaith drwy adolygiadau cymheiriaid o risgiau gweithredol a gwaith ar risgiau anweithredol drwy'r broses Asesu Risg ar y Cyd i sicrhau bod gan y Cyngor systemau priodol ar waith i ymateb i archwilio ac arolygu allanol.

### Gellid datblygu'r dull craffu presennol o fewn yr Awdurdod ymhellach

52. Nodwyd bod ymgysylltu ag aelodau a chraffu yn risgiau canolig neu uchel ym mhob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub fel rhan o'r Asesiad Risg ar y Cyd agoriadol sy'n rhan allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (Tân). Mae craffu'n llai datblygedig mewn Awdurdodau Tân ac Achub nag y mae mewn awdurdodau lleol, ac mae lle i ddatblygu'r strwythurau presennol ymhellach. Ceir lle hefyd i wella'r broses o ddethol materion i aelodau graffu arnynt a datblygu cyd-ddealltwriaeth gliriach o rôl graffu bosibl aelodau yng nghyd-destun yr Awdurdod Tân ac Achub.

53. Yn unol â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru, cymerodd yr Awdurdod ran mewn adolygiad o'r trefniadau craffu. Cyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2008, a chanfu er bod yr egwyddor o Banel Gweithredol yn gadarn, nid oes proses glir eto ar gyfer craffu ar benderfyniadau a cheir risg o wrthdaro posibl rhwng y Panel a'r Awdurdod llawn gan y gall aelodau nad ydynt yn rhan o'r Panel Gweithredol deimlo nad ydynt yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at benderfyniadau hwyr neu wrthdaro. Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion er mwyn i'r Awdurdod wella'i broses graffu ymhellach. Mae adolygiad parhaus yn ystyried yr argymhellion hyn.

54. Mae'r Awdurdod yn gweithredu rhaglen datblygu aelodau llawn a hefyd yn cymryd rhan yn Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau: Dull ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Llofnododd yr Awdurdod Ddatganiad o Fwriad i wneud cais am achrediad ym mis Mawrth 2008, ac mae bellach yn cyflwyno cyfres o gyfleoedd hyfforddi i aelodau.

## Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â mentrau Swyddfa Archwilio Cymru i hybu gwelliant

### Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddefnyddio'r Gyfnewidfa Arfer Da drwy ddysgu a rennir

55. Yn 2007, dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru ar raglen hirdymor o hybu gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy gasglu, gwerthuso a lledaenu arfer da. Lansiwyd cyfleusterau ar y we i helpu i wneud gwelliannau ym maes rheoli absenoldeb oherwydd salwch, rheoli fflyd, iechyd galwedigaethol a rheoli grantiau, a datblygwyd y gallu i gael gafael ar astudiaethau achos Swyddfa Archwilio Cymru a chyfleusterau i rannu dysgu ymhob gwasanaeth cyhoeddus.

56. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar Ffyrdd Callach o Weithio, gyda'r nod o ddarparu ysgogiad cyfleus ar gyfer arloesedd a meddwl creadigol o ran paratoi'r sefydliad gwaith - a'r bobl sy'n ei gyflawni - ar gyfer patrymau mwy hyblyg. Ei nod yw cefnogi strategaeth sefydliadol gyffredinol o welliant, gan greu manteision mewn perthynas â rheoli costau, cynaliadwyedd, ac ymgysylltu â chyflogeion. Mae cynllunio gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth wraidd ffyrdd callach o weithio.

57. Gofynnodd yr Awdurdod i ni ystyried pynciau posibl amrywiol fel rhan o'n menter Ffyrdd Callach o Weithio, yn cynnwys cydraddoldeb, rheoli mewn amgylchedd lle defnyddir Staff wrth gefn yn bennaf, systemau arfarnu, a rheoli gweithlu gwasgaredig. Rydym yn nodi opsiynau ar hyn o bryd ar y cyd â'r Prif Swyddog Tân.

### Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i gyflawni'r agenda Creu'r Cysylltiadau ac mae ei ddull o reoli fflyd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn ategu gwelliannau yn y broses o ddarparu gwasanaethau

58. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen waith barhaus sy'n canolbwyntio ar agenda Creu'r Cysylltiadau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2007 cwblhawyd asesiad sylfaenol o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r agenda honno, ac yn dilyn hynny cwblhawyd adolygiad fesul cam o reoli asedau a fyddai'n darparu fframwaith ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

59. Cynlluniwyd y cam cyntaf o'r gwaith hwnnw – ar reoli fflyd – er mwyn nodi p'un a oedd trefniadau sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gefnogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Mae'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yng Nghymru yn defnyddio tua 16,000 o gerbydau sy'n costio rhyw £200 miliwn y flwyddyn i'w rhedeg. Amcangyfrifwn fod y cerbydau hyn yn teithio rhyw 250 miliwn o filltiroedd y flwyddyn, sy'n creu tua 110,000 tunnell o garbon deuocsid ($CO_2$). Gall rheoli fflyd yn effeithiol wella'r ffordd y darperir gwasanaeth, lleihau costau gweithredu a lleihau effaith y fflyd ar yr amgylchedd.

60. Mae'n costio £1.2 miliwn y flwyddyn i redeg fflyd cerbydau'r Awdurdod, sy'n cynnwys 229 o gerbydau. Er yr ystyriwyd prydlesu yn hytrach na phrynu cerbydau, mae'r Awdurdod o'r farn nad yw prydlesu mor gost effeithiol gan fod y brydles yn cyfyngu ar hyd oes y cerbyd. Canfu'r adroddiad sawl maes o ymarfer effeithiol, er enghraifft cynllun busnes tair blynedd, dogfen polisi Risgiau Galwedigaethol ar y Ffordd, sy'n nodi cyfres o ganllawiau gwaith ar gyfer gyrwyr a chydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. O ran arfer da, nododd yr adroddiad y defnydd o gwmni olew allanol, sydd wedi arwain at leihad yn nifer yr achosion o newid olew cerbydau, a'r defnydd posibl o olew synthetig yn y dyfodol, a fydd yn lleihau costau ymhellach ac yn cyfrannu at berfformiad amgylcheddol yr Awdurdod. Gwnaethom gyfres o argymhellion o ran rheoli fflyd sy'n gallu gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau, lleihau costau gweithredu a lleihau effaith amgylcheddol y fflyd.

## Atodiad 1

# Adroddiad yr Archwilydd ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2007/2008

| **Casgliad ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau** |
|---|
| **Cyfrifoldebau'r Awdurdod** |
| Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd. |
| **Cyfrifoldebau'r Archwilydd** |
| Mae cyfrifoldeb arnaf o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, i gasglu o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod a gwybodaeth berthnasol arall p'un a wyf yn fodlon iddo wneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau o bwys ohonynt ym mharagraff 48 o God yr Archwilydd Cyffredinol.<br>Cyflwynaf adroddiad os daw materion o bwys i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir. |
| **Casgliad** |
| Seiliwyd y casgliad canlynol ar waith a wnaed fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2007/2008, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad yn fy marn i, i gadarnhau, ym mhob ffordd berthnasol, pa drefniadau a oedd gan yr Awdurdod ar waith yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw.<br>Ar sail Datganiad am Reolaeth Fewnol yr Awdurdod ac o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y disgrifiwyd uchod, fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2007/2008, a'r holl wybodaeth arall a ystyriais yn berthnasol, rwy'n fodlon ar y cyfan o ran bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei gyfrifoldeb ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf hefyd wedi codi materion amrywiol gyda'r Awdurdod, ac wedi gwneud argymhellion i wella ei drefniadau. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn y Llythyr Blynyddol. |
| Anthony Snow<br>Archwilydd Penodedig<br>Swyddfa Archwilio Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd CF11 9LJ<br>14 Tachwedd 2008 |

## Atodiad 2

# Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2007/2008 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | 1. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr** | 2. A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd i gyfathrebu â defnyddwyr a threthdalwyr a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | 3. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol** | 4. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | 5. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | 6. A yw'r Awdurdod wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol? |
| | 7. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | 8. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod? |
| | 9. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ei sail asedau? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | 10. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle bo angen a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod? |
| | 11. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Awdurdod? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | 12. A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

Atodiad 3

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2008/2009

## Tystysgrif

Ardystiwn ein bod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 a Chod yr Archwilydd Cyffredinol. Gwnaethom hefyd ystyried *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r archwilwyr

O dan Ddeddf 1999 mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn crynhoi:

- ei asesiadau o berfformiad;
- ei sefyllfa o ran ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus i'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Cafodd hyn ei ategu gan ganllawiau a nodwyd uchod sydd yn gosod allan sut y dylai'r gofynion o dan adrannau 3, 5 a 6 o Ddeddf 1999 eu rhyddhau. O dan y canllawiau hyn, galwyd y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yma yn Gynllun Gwella.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun ac am y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo. Dylai rhaglen waith y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dyfodol a nodir yn y Cynllun fod yn gysylltiedig â chanlyniadau'r asesiad risg wedi'i ddiweddaru.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol briodol y mae'r wybodaeth a'r asesiadau yn ei Gynllun yn deillio ohonynt ac am sicrhau ei fod yn darparu digon o allu ac adnoddau i reoli newid a gwelliant. Rhagnodir ffurf a chynnwys y Cynllun yn adran 6 o Ddeddf 1999 a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

Fel archwilwyr penodedig yr Awdurdod, mae'n ofynnol i ni, o dan adran 7 o Ddeddf 1999, gynnal archwiliad o'r Cynllun, i ardystio ein bod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad ynghylch a ydym o'r farn bod y Cynllun wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a nodwyd yn adran 6 o Ddeddf 1999 a chanllawiau.Mae hefyd yn ofynnol i ni argymell:

- Lle y bo'n briodol, argymell sut y dylid diwygio'r Cynllun fel ei fod yn unol â gofynion statudol.
- Lle y bo'n briodol, pa weithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun.
- A ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan adran 10A o Ddeddf 1999.
- A ddylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfarwyddyd o dan Adran 15 o'r Ddeddf – ee, cyfarwyddo'r Awdurdod i ddiwygio ei Gynllun, cynnal adolygiad o swyddogaeth benodol neu gynnal ymchwiliad lleol. Ceir manylion ynglŷn â'r holl gyfarwyddiadau posibl yn Neddf 1999.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

Gwnaethom gynllunio a chyflawni ein gwaith er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999.

At ddibenion ein hadroddiad, rydym wedi dehongli bod cydymffurfiaeth â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn y ddogfen, *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol*, yn ddigon i fodloni'r gofynion statudol o dan adran 6 o Ddeddf 1999.

Nid yw'n ofynnol i ni lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth na realaeth na chyflawniad y Cynllun a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd ein gwaith felly yn cynnwys adolygiad ac asesiad o'r Cynllun, a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol, a oedd yn ddigon i fodloni ein hunain bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Er mwyn cadarnhau a ddylem wneud argymhellion ar weithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun, roedd ein gwaith yn cynnwys:

- adolygiad ac asesiad a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol i ddigonolrwydd y systemau sydd ar waith gan yr Awdurdod ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth benodedig am berfformiad;
- profi Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau penodol a ddetholwyd ar sail meini prawf a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennym er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 i nodi pob gwendid neu gyfle i wella. Gwnaethom gynllunio ein gwaith er mwyn casglu digon o dystiolaeth i fodloni ein hunain bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Atodiad 4

# Ffioedd archwilio ac arolygu

Roedd eich ffioedd archwilio ac arolygu ar gyfer 2007/2008 yn seiliedig ar y risgiau a nodwyd ac ar asesiad o'r gwaith y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Ar hyn o bryd, disgwylir iddynt fod yn unol â'r rhai a nodir yn eich Cynllun Rheoliadol fel y crynhoir isod.

**Ffioedd Archwilio ac Arolygu 2007/2008 (heb gynnwys TAW)**

| | Swm arfaethedig 2007/2008 (£) | Swm gwirioneddol a ddisgwylir 2007/2008 (£) |
|---|---:|---:|
| Cyfrifon | 25,150 | 25,150 |
| Archwilio perfformiad | 17,420 | 17,420 |
| Arolygu perfformiad | 10,061 | 10,061 |
| **Cyfanswm** | **52,631** | **52,631** |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk